| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor GwE |
| **DYDDIAD** | 23 Medi 2015 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ac Archwiliad perthnasol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;<br>• Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;<br>• Llythyr Cynrychiolaeth. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr. |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i gyfarfod 15 Gorffennaf 2015 o Gyd-Bwyllgor GwE:

1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Cyd-Bwyllgor GwE.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5m, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

1.6 Bydd y Datganiad o Gyfrifon GwE yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, ar wahân i'w harchwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd.

## 2. CYFRIFON 2014/15

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2014/15 i'r cyfarfod 15 Gorffennaf 2015 o Gyd-Bwyllgor GwE ar ffurf adroddiad "alldro" syml, ynghyd â'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2014/15 (cyn archwiliad).

## 3. ARCHWILIAD

Nodwyd ar y pryd byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

## 4. CYFRIFON TERFYNOL 2014/15

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol ôl-archwiliad o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2014/15. Mae'r newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 5. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth sy'n yr atodiadau,** sef –

- Adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon 2014/15 (ôl-archwiliad)

## 6. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

**Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth** (Atodiad 1 i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru) **wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.**

## 7. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.